



Ein cyf: A35572821

Elin Jones AS  
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes  
Senedd Cymru

[Elin.jones@senedd.cymru](mailto:Elin.jones@senedd.cymru)

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Elin,

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad atoch ar 2 Gorffennaf yn codi pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd proses graffu'r Senedd pan fydd Llywodraeth y DU yn bwriadu deddfu mewn materion lle mae'r cymhwysedd wedi cael ei ddatganoli, ac yn cytuno bod angen cyfle ar aelodau Pwyllgor y Chweched Senedd i graffu'n llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae pennu'r cyfnod craffu a dyddiad y ddadl yn ddarostyngedig i amserlen Senedd y DU ar gyfer ystyried y Bil, ac nid oes gennym reolaeth dros hon.

Fodd bynnag, mae'n bleser gennyf gadarnhau bod y Gweinidog Newid Hinsawdd wedi cael ymateb ffafriol i'w llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth a Bwyd, yn gofyn i'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi gael ei drefnu i ganiatáu rhagor o amser i Bwyllgor y Senedd graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. O ganlyniad, rydym bellach yn cynnig cynnal y ddadl ar 28 Medi, ac estyn yr amser i ganiatáu amser ychwanegol i'r Senedd drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â hynny, rydym yn cynnig newid y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i 23 Medi. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn dal i fod yn llai na'r chwe wythnos eistedd o leiaf a fyddai'n cael ei roi i'r Pwyllgorau ar gyfer craffu fel arfer, i helpu'r Pwyllgorau wrth iddynt graffu ar y Memorandwm, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi bod yn bresennol yn y ddau Bwyllgor cyn toriad yr haf ac mae wedi ymrwymo i ymateb yn ffurfiol, cyn y ddadl, i adroddiadau'r Pwyllgorau craffu a gyhoeddir erbyn y dyddiad cau diwygiedig.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cofion,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in black ink and is positioned centrally below the text "Cofion,".

**Lesley Griffiths AS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd